



Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Awdurdod Lleol

Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i wneud cynnydd cryf ac mae'n perfformio'n dda.

Mae'r cyfarwyddwr yn arwain yn effeithiol, ac yn darparu gweledigaeth a chanllawiau eglur yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a nodau strategol eglur.

Mae adroddiad blynyddol a chynllun gwella arweinydd y cyngor yn nodi ymrwymiad y cyngor i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o'r ansawdd gorau, gan sicrhau bod y gwasanaethau yn effeithlon ac yn rhoi gwerth da am arian. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r heriau ariannol, ac mae'r cyfarwyddwr wedi nodi ei strategaeth ar gyfer cyllideb yr adran er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithlon a chynaliadwy.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y cyngor ac mae'n nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth dda i ddangos sut y mae'r cyngor yn cyflawni'r canlyniadau, ac mae'n adlewyrchu safbwyntiau'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n cyfuno gweithgarwch perfformiad, gan nodi i ba raddau y cyflawnwyd targedau allweddol ac amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhoi gwybodaeth eglur am atebolrwydd cyhoeddus y cyngor ac yn galluogi trigolion Sir Gaerfyrddin i benderfynu ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol.

Gwasanaethau i oedolion

Mae'r cyngor yn parhau i wneud yn dda o ran gweithredu rhaglen o newid yn y gwasanaethau i oedolion, gyda phwyslais ar ddatblygu adnoddau mwy effeithiol

yn y gymuned i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach. Mae'r nod o gynorthwyo pobl hŷn i aros yn annibynnol yn cael ei ddatblygu trwy ddarparu gwasanaethau ail-alluogi a thrwy ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar. Mae'r cytundeb Adran 33 rhwng Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i ddarparu model gofal integredig yn gweithio'n dda.

Gwasanaethau i blant

Mae'r gwasanaethau i blant yn elwa o arweinyddiaeth strategol a gweithrediadol cryf, gyda chefnogaeth gweithlu sefydlog, a cheir gweledigaeth eglur i ddatblygu gwasanaethau sy'n targedu gwaith ataliol ac ymyriadau cynnar er mwyn darparu cymorth i'r teulu cyfan. Cryfder allweddol yw bod y gwasanaethau i blant yn yr un gyfarwyddiaeth, ac mae cyfarwyddwr corfforaethol ar gyfer plant yn sicrhau bod y gwasanaethau statudol a'r gwasanaethau ataliol yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae gan y pennaeth gwasanaeth newydd weledigaeth gadarn ar gyfer y gwasanaeth. Mae'n datblygu strwythurau newydd ar gyfer y gwasanaeth ac o ran rheolaeth, gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau'n fwy ymatebol er mwyn bodloni'r galw a'r heriau ariannol. Datblygiad allweddol yw'r bwriad i ail-lunio'r dasg broffesiynol, cefnogi gweithwyr cymdeithasol yn eu hymarferion, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol ac effeithiol i blant a'u teuluoedd.

Mae rhai dangosyddion perfformiad yn y gwasanaethau i blant yn dangos bod sawl maes lle y dylai Cyngor Sir Caerfyrddin wneud gwelliannau. Mae canran yr asesiadau plant lle y gwelir plant gan weithiwr cymdeithasol yn is na'r rhan fwyaf o gynghorau, yn ogystal â chanran y plant a welir ar eu pennau eu hunain. Mae prydlondeb cynadleddau achos cychwynnol amddiffyn plant, sefydlogrwydd lleoliadau a chyfradd yr adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sydd â chynllun addysg wedi ei sefydlu o fewn ugain diwrnod yn feysydd eraill lle y gellid gwneud gwelliannau.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Mae datblygiad byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer oedolion a phlant yn cyflwyno her o ran sicrhau yr ymdrinnir â materion diogelu a blaenoriaethau lleol drwy'r grŵp rhanbarthol.
- Mae cyfyngiadau ariannol y cyngor yn cyflwyno her, i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol i'w drigolion.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor yn parhau i ddangos gwelliannau cadarnhaol ym mhob maes gwasanaeth, mewn gofal plant ac oedolion; mae'r blaenoriaethau'n eglur, a cheir syniad eglur o sut y mae'n bwriadu llunio'r gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cyngor wedi ymateb yn dda i'r meysydd a nodwyd i'w datblygu y llynedd ac wedi cyflawni'n effeithiol o ran ei fusnes craidd.

Mae'r trefniadau monitro perfformiad yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad yn effeithiol o'u cymharu ag amcanion a chanlyniadau allweddol. Mae cynllun

gwella blynyddol y cyngor yn dangos canlyniadau gwell yn y rhan fwyaf o feysydd.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Mae'r gwasanaethau i blant yn dangos bod eu strategaethau ataliol yn gweithio'n effeithiol: mae angen gofal ar lai o blant ac mae'r rhai hynny sydd angen eu hamddiffyn yn elwa o ymyriad mwy rhagweithiol ac ymatebol.
- Gwelwyd gwelliannau parhaus o ran lleihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo pobl o ysbytai.
- Cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, trwy'r dull integredig ac aildrefnu'r dull o ddarparu gwasanaethau.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

- Adolygiad cenedlaethol o swyddogaeth statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwasanaethau anableddau dysgu i oedolion.
- Gwasanaethau pobl hŷn, gan gynnwys y tîm adnoddau cymunedol, y tîm ail-alluogi, gwasanaeth gwelyau adferiad Llys y Bryn a gwasanaethau gofal cartref.
- Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion.
- Gwasanaethau plant; y tîm derbyn ac asesu.
- Rhaglen arolygiadau rheoleiddio ar gyfer y gwasanaethau oedolion a phlant.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi eu nodi ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Trafodir y camau a gymerwyd yn hyn o beth gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

- Gweithredu byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer oedolion a phlant.
- Datblygu'r model adfeddiannu gwaith cymdeithasol yn y gwasanaethau i blant.
- Y prosiect trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion.
- Datblygiad gwasanaethau dementia a'r hyn a gyflawnwyd gan y bwrdd gweithredu ar ddementia.
- Cynllunio ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc anabl i'r gwasanaethau i oedolion.
- Gwasanaethau cymorth i ofalwyr a gweithrediad Mesur (Strategaethau) Gofalwyr 2010.
- Gweithrediad Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.
- Trosolwg cenedlaethol o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae'r cyngor yn bwrw ymlaen yn dda o ran aildrefnu eu gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyngor wedi asesu'r demograffeg a'r angen lleol yn effeithiol. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r ffaith bod cydweithredu gydag asiantaethau partner yn allweddol wrth barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn effeithiol. Mae trefniadau effeithiol wedi eu sefydlu rhwng y cyngor a Bwrdd Iechyd Hywel Dda a gwelwyd tystiolaeth bod y modd y cyflwynir gwasanaethau wedi gwella yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Enghraifft o hyn yw datblygiad gwasanaethau cefnogi, er enghraifft gofal nos ymateb uniongyrchol a'r gwelyau adfer. Mae'r gwasanaethau hyn yn lleihau'r defnydd o wasanaethau gofal preswyl ac yn cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain yn hirach. Derbyniodd y cyngor gydnabyddiaeth yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol am ei waith arloesol yn datblygu'r gwelyau adfer, a nodwyd eu bod yn darparu canlyniadau ardderchog mewn gofal i bobl hŷn.

Mae strategaeth gymunedol integredig y cyngor yn nodi ymrwymiad y cyngor i weithio gyda'i asiantaethau partner ac maent yn cyflawni'r amcanion allweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, ond nid yw'n eglur beth fydd y blaenoriaethau o ran datblygu gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol.

Mae gan y cyngor drefniadau contractio a chomisiynu effeithiol wedi eu sefydlu, a cheir cysylltiadau amlwg rhwng y gwasanaeth hwn a'r tîm diogelu, gan gynnig dull mwy integredig i sicrhau y gellir monitro gwasanaethau a gomisiynir yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd monitro aml-asiantaeth yn rheolaidd a defnyddir dull rhagweithiol o reoli perfformiad a materion diogelu mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r tîm contractio'n cynnal archwiliadau thematig, gan nodi meysydd allweddol lle y mae angen gwella'r gwasanaethau, yn y gwasanaethau mewnol a'r rhai a gomisiynir. Daeth yr arolygiadau o leoliadau preswyl y cyngor i'r casgliad fod y gwasanaethau'n cael eu gweithredu'n dda a'u bod, gan fwyaf, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i drigolion. Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau gofal cartref, ac o ganlyniad mae contractau newydd wedi eu cyflwyno, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol.

Plant

Mae'r cyngor yn datblygu gwasanaethau yn unol â rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Chychwyn Cadarn Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun cymorth i deuluoedd yn darparu strategaeth ataliol eglur, gyda phwyslais ar gynnal gwaith ataliol ac ymyriad cynnar i deuluoedd, targedu grwpiau sy'n agored i niwed ac ymdrin â thlodi plant. Mae gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u hailfodelu er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf a chynyddu'r cyfleoedd i weithio mewn dull aml-asiantaeth integredig. Mae'r trefniant partneriaeth rhwng y cyngor a

Gweithredu Dros Blant, er mwyn gweithio gyda theuluoedd y mae eu plentyn mewn perygl o ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, yn brosiect arloesol.

Mae data perfformiad yn dangos bod y cyngor yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, o ran ei agenda strategol, ac mae nifer o ddangosyddion a chanlyniadau i blant wedi gwella. Mae'r cynnydd yn nifer y plant a nodir yn blant mewn angen, yn ogystal â'r gostyngiad mewn plant sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny ar y gofrestr amddiffyn plant, yn dangos y newid a fu i ddarparu gwasanaethau ataliol.

Cynhaliwyd adolygiad ynglŷn â'r trefniadau comisiynu fel rhan o gynlluniau effeithiolrwydd y cyngor, ac mae'r cyngor wedi nodi dulliau mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r cyngor wedi dechrau darparu'r cynllun cyswllt teulu i blant anabl yn fewnol unwaith eto. Mae'r cyngor yn cynnig amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth i deuluoedd i blant anabl a'u teuluoedd, ac mae'r cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru am ei waith yn comisiynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag Awtistiaeth. Nododd arolygiadau rheoleiddio blynyddol AGGCC o wasanaethau preswyl i blant anabl eu bod yn elwa o wasanaethau a weithredir yn dda a'u bod yn cael cyfleoedd sy'n gwella eu bywydau.

Mae'r cyngor wedi datblygu trefniadau ymgynghori effeithiol â rhanddeiliaid yn y gwasanaethau i blant anabl ac mae rhieni wedi gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu a llunio gwasanaethau. Dylid ystyried y model hwn o gynnwys rhanddeiliaid yn y gwasanaethau eraill i blant.

Mae'r gwasanaeth cymorth, trwy Gweithredu Dros Blant, sy'n darparu cymorth uniongyrchol i rieni y mae mwy nag un o'u plant wedi eu cymryd oddi arnynt i'w mabwysiadu, yn parhau i gael effaith gadarnhaol ac mae mwy o ostyngiad wedi bod yn nifer y plant a gymerir oddi ar eu teuluoedd.

Meysydd o gynnydd

- O ganlyniad i ddarparu pecynnau gofal ar y cyd yn effeithiol yn y gwasanaethau i oedolion, mae pobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnodau hirach.
- Yn y gwasanaethau i blant, mae'r agenda ataliol wedi ei hymwreiddio mewn ymarfer ac yn dangos canlyniadau gwell i blant.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i weithio ar ddatblygu gwasanaeth integredig i oedolion ag anableddau dysgu.
- Mwy o ymgysylltu â phlant a theuluoedd wrth lunio gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cyfranogi ac yn cymryd rhan.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae'r cyngor yn darparu amrywiaeth o wybodaeth mewn gwahanol gyfryngau i gymunedau lleol; maent ar gael yn rhwydd a hynny'n ddwyieithog. Mae Careline Plus yn darparu ymateb cyntaf effeithiol i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cydnabyddiaeth fel arfer gorau o ran bodloni "*Mwy na Geiriau*" Llywodraeth Cymru am ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae'r broses cynllunio gofal a'r asesiadau aml-asiantaeth yn parhau i weithio'n dda, a darperir ymateb wedi ei gydgyssylltu rhwng y gwasanaethau gofal cymdeithasol a phractisiau meddyg teulu lleol. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gweithio i wella'r broses asesu unedig, gyda'r nod o ddangos cyswllt gwell â chanlyniadau i bobl.

Mae'r gwasanaeth ail-alluogi yn darparu gwasanaeth ymatebol i bobl, gan ganolbwyntio ar gynllun gofal sy'n rhoi cymorth dwys, gyda'r nod o ddatblygu a hybu eu hannibyniaeth yn eu cartrefi. Mae hwn yn newid diwylliant gwirioneddol i deuluoedd o'r defnydd o wasanaethau cymorth preswyl mwy traddodiadol. Er hyn, mae'r gwelyau adfer yn cyd-fynd â'r gwasanaeth hwn ac yn cynnig dewis i'r rhai hynny sydd ag angen pecyn mwy dwys o gymorth mewn lleoliad preswyl ar y cychwyn. Mae data ystadegol yn nodi nad oes angen mwy o wasanaethau ar 57% o'r bobl sy'n gorffen y rhaglen.

Yr her i'r cyngor yn y dyfodol fydd datblygu adnoddau cymunedol i gefnogi gweledigaeth y cyngor o ran aildrefnu gofal cymdeithasol i oedolion, o fodel o ddibyniaeth tuag at hybu annibyniaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl. Mae angen i'r cyngor barhau i fonitro'r cydbwysedd gofal rhwng cefnogi pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain a'u derbyn i welyau gofal preswyl, ochr yn ochr â sicrhau bod systemau perfformiad effeithiol yn cael eu datblygu i ddangos canlyniadau gwell.

Plant

Mae'r gwasanaethau i blant yn parhau i ddarparu ymateb effeithiol i atgyfeiriadau. Mae system atgyfeirio ganolog Heddlu Dyfed Powys yn parhau i weithio'n effeithiol, a bwriedir lleoli gweithiwr cymdeithasol yn uniongyrchol yn y tîm er mwyn gwneud y gwasanaeth hwn yn fwy ymatebol.

Mae'r tîm derbyn yn darparu gwasanaeth ymatebol, ond mae cyfran yr asesiadau lle y gwelir plentyn gan weithiwr cymdeithasol a'r gyfran lle y gwelir plentyn ar ei ben ei hun yn llawer is na'r rhan fwyaf o'r cynghorau eraill. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr o'r broses o wneud penderfyniadau yn dda ac mae'r staff yn derbyn cefnogaeth dda yn eu swyddi. Mae systemau sicrhau ansawdd effeithiol wedi eu sefydlu, sy'n sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ailatgyfeiriadau.

Mae'n ymddangos bod yr adolygiad o'r offeryn asesu yn gweithio'n dda ac mae'r gweithwyr cymdeithasol yn nodi ei fod wedi arwain at dreulio llai o amser

yn cofnodi data. Mae'r asesiadau wedi eu strwythuro'n dda, gyda gwaith dadansoddi da, ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion y plentyn a'r teulu er mwyn datblygu cynllun ar gyfer ymyriad. Dylai'r cyngor ystyried sut y mae cynlluniau unigol y plant yn dangos y canlyniadau dymunol ar gyfer y plentyn yn eglurach.

Meysydd o gynnydd

- Cymorth gwell i oedolion er mwyn iddynt aros yn eu cartrefi a'u cymuned yn hirach.
- Cymorth i ofalwyr sy'n oedolion wedi gwella.
- Perfformiad gwell o ran adolygiadau yn y gwasanaethau i oedolion.
- Gwelliant o ran yr adolygiadau i blant mewn angen.
- Yn y gwasanaethau i blant, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau, yn ogystal â lleihad yn nifer yr ailatgyfeiriadau.

Meysydd i'w gwella

- Datblygiad offeryn asesu mwy effeithiol yn y gwasanaethau i oedolion.
- Dylai'r cynlluniau unigol plant i ddarparu amcanion mwy eglur a dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â gwella canlyniadau i blant.
- Cynnydd yng nghyfran yr asesiadau lle y gwelir y plentyn gan weithiwr cymdeithasol a chyfran y plant a welir ar eu pennau eu hunain.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae'r cyngor yn darparu amrywiaeth gynyddol eang o wasanaethau sy'n gynyddol fodloni anghenion pobl ar gyfer byw'n annibynnol. Mae mwy o bobl yn derbyn cymorth i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r cytundeb Adran 33 yn gweithio'n dda. Mae'r cyngor yn datblygu gwaith aml-asiantaeth mwy effeithiol trwy gyfuno adnoddau ac osgoi dyblygu gwasanaethau.

Mae'r timau adnoddau cymunedol integredig yn parhau i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig ac yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth pobl. Mae'r cyngor yn datblygu targedau data perfformiad i fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn.

Nodir bod y tîm trosglwyddo oedolion a phlant a sefydlwyd i weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt drosglwyddo o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion wedi cael effaith gadarnhaol. Y cam nesaf fydd sicrhau bod cyfoc'hri agosach rhwng y cyrff ariannu i sicrhau bod y broses o drosglwyddo rhwng y gwasanaethau yn fwy integredig.

Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn darparu dull aml-asiantaeth integredig; mae'r staff yn derbyn cefnogaeth dda a hyfforddiant priodol. Mae'r cyngor yn gwneud gwaith da ar weithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ac mae

llawer o ddatblygiad wedi bod o ran symud tuag at fodel cynllunio gofal a thriniaeth.

Mae'r cyngor wedi cynnal adolygiad o'r gwasanaethau dementia a nododd flaenoriaethau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ac mae bwrdd gweithredu dementia wedi ei sefydlu, gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau'n strategol yn y cyngor. Mae'r cyngor hefyd yn un o dri safle arddangos ar gyfer prosiect *'Trawsnewid Gwasanaethau i Bobl Hŷn gyda dementia'* yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn monitro datblygiad y gwaith hwn ochr yn ochr â datblygiad gwasanaethau dementia yn y cyngor.

Plant

Mae cynllun gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei ymwreiddio'n dda ac mae'n dangos sut y bydd teuluoedd yn derbyn cymorth trwy Cychwyn Cadarn a gwasanaeth integredig i deuluoedd. Mae'r cyngor wedi nodi ei gynlluniau datblygu ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan nodi sut y bydd yn targedu teuluoedd yn y rhannau mwyaf difreintiedig o'r sir er mwyn ymdrin â thlodi a gwella canlyniadau i blant. Mae'r bartneriaeth blant yn gweithio'n dda, ac mae ganddi weledigaeth eglur ynglŷn â rhoi'r cychwyn gorau bosibl mewn bywyd i bob plentyn. Mae'r asesiad digonolrwydd gofal plant yn nodi'r blaenoriaethau o ran cyflenwi darpariaethau gofal plant effeithiol ac mae arolygwyr blynyddoedd cynnar yn canfod bod darpariaeth gofal plant o ansawdd da yn gyffredinol yn cael ei gynnig yn y sir.

Mae gwasanaethau ataliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r cyngor yn cynnig amrywiaeth dda o wasanaethau. Gwelwyd tystiolaeth gref i ddangos bod hyn yn dechrau bod yn effeithiol a bod lleihad yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant a'r rhai hynny sy'n derbyn gofal. Mae'r tîm cymorth dwys i deuluoedd yn gweithio'n dda, gan gynnig gwasanaethau trwy dîm amlddisgyblaethol gan gynnwys cynorthwyo teuluoedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a materion cymhleth.

Mae'r tîm cymorth integredig i deuluoedd wedi bod yn gweithredu ers deuddeg mis, gan ddarparu ymateb aml-asiantaeth i deuluoedd lle y ceir pryderon bod y gallu i rianta wedi ei effeithio gan faterion cymhleth a phryderon ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r tîm yn darparu cymorth dwys wedi ei dargedu, yn canolbwyntio ar rannu cyfrifoldeb rhwng y teuluoedd a'r asiantaethau. Mae'r gwasanaeth wedi ei sefydlu ar y cyd ag awdurdodau eraill a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Adroddir bod y model hwn yn gweithio'n dda ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol gyda theuluoedd ac yn gwella canlyniadau i blant.

Mae model y tîm o amgylch y teulu yn gweithio'n effeithiol a cheir cynlluniau i ehangu'r gwasanaeth cymorth ataliol hwn. Mae'r gwasanaeth lles addysg yn cael ei ailfodelu fel rhan o ymrwymiad y cyngor i weithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill ac i gryfhau'r strategaeth ataliol ymhellach.

Ceir menter newydd i ddatblygu dull mwy systematig o weithio gyda theuluoedd ar sail y *Model Hackney* gan edrych ar adfer swyddogaeth gwaith cymdeithasol.

Nod hwn yw darparu pecyn cymorth mwy dwys ac wedi'i dargedu'n well i'r teulu, ac i leihau'r angen am ymyriad gwasanaethau cymdeithasol trwy'r gwasanaethau statudol. Bydd AGGCC yn monitro ei weithrediad yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Daeth arolygiad blynyddol y gwasanaeth maethu i'r casgliad fod y cyngor yn ymroddedig i roi gofal cadarnhaol a diogel i blant yn seiliedig ar y teulu. Gofynnir am safbwyntiau plant a phobl ifanc ac mae'r cyngor yn hybu cyraeddiadau'r plant yn dda trwy gynnal seremoni wobrwyo flynyddol. Nododd gofalmwr maeth eu bod yn derbyn cefnogaeth dda, bod ymrwymiad eglur i sicrhau bod gan blant leoliadau sefydlog a chefnogol, a bod anghenion emosiynol y plant yn cael eu cefnogi'n dda. Nodwyd gwelliannau yn nifer yr adolygiadau blynyddol i ofalmwr maeth. Mae'r cyngor yn parhau i fodloni gofynion Bywydau Sefydlog a Dyfodol Gwell yn dda ac mae llawer iawn o'r plant sy'n derbyn gofal yn aros yn y sir.

Meysydd o gynnydd

- Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.
- Trefniadau comisiynu gwell i oedolion a phlant.

Meysydd i'w gwella

- Datblygu dangosyddion perfformiad yn y gwasanaethau i oedolion i ddangos canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Mae angen i'r tîm trosglwyddo plant ac oedolion ar gyfer gwasanaethau anabl gyfochri'r cyrff ariannu'n agosach i sicrhau proses drosglwyddo fwy integredig, rhwng y gwasanaethau.
- Datblygu'r gwasanaethau gofal dementia yn fwy.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae'r gwasanaethau i oedolion yn parhau i ddangos canlyniadau gwell. Mae mwy o bobl yn gallu arwain bywydau annibynnol, mwy o bobl yn cael dewis a rheoli'r ffordd y darperir gwasanaethau, a dangosir ymrwymiad i gynnig pecynnau gofal i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cymunedau yn hirach. Mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad o ran achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal o ysbytai, trwy ei waith ar y cyd gyda nyrsys cydgysylltu'r broses ryddhau a'r tîm ailalluogi.

Mae'r ymgynghoriad yn y gwasanaeth anabledd dysgu wedi arwain at aildrefnu'r gwasanaethau dydd, gan symud i ffordd o'r model canolfan ddydd traddodiadol. Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnig cyfleoedd gwell yn y gymuned, mae'n ymdrin ag arwahanrwydd cymdeithasol ac mae'n cefnogi pobl mewn gwaith ac i gymryd gweithgareddau ystyrlon. Mae adolygiad o'r strategaeth gomisiynu ar y cyd yn cael ei gynnal. Mae'r cyngor yn cydnabod bod y gwasanaethau llety yn anghynladwy ac mae 68% o gyfanswm y gyllideb anabledd dysgu yn cael ei wario ar wasanaethau llety a gomisiynir. Mae'r

cyngor yn dangos gwir ymrwymiad i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni anghenion pobl ac yn gwella eu canlyniadau.

Mae'r strategaeth comisiynu aml-asiantaeth ar gyfer gwasanaethau i oedolion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar hyn o bryd, i ymdrin â blaenoriaethau'r dyfodol. Mae'r Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi ei sefydlu'n dda, ac mae 90% o bractisiau meddyg teulu wedi sefydlu prosesau ar gyfer nodi a chefnogi gofalwyr di-dâl. Nodir bod y tîm rhanbarthol a ddatblygwyd wedi gwneud gwahaniaeth i'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr. Byddwn yn monitro'r hyn a gyflawnir i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr yn y gwasanaethau i blant ac oedolion.

Mae proses y cyngor ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau cenedlaethol a cheir cysylltiadau aml-asiantaeth effeithiol. Mae Careline Plus yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau ac mae arolygwyr rheoleiddio'n nodi bod hyn yn gweithio'n effeithiol. Mae oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn yn well yn sgil integreiddio'r tîm contractio a chomisiynu â'r tîm diogelu ac mae cysylltiad eglur rhwng diogelu a gweithredu'r trefniant ar gyfer hysbysu uwch swyddogion am bryderon. Er bod systemau wedi eu sefydlu i fonitro effeithiolrwydd y gwaith diogelu, mae nifer o ymchwiliadau diogelu wedi cymryd misoedd i'w cwblhau. Mae angen i'r cyngor ystyried prydlondeb ymchwiliadau o adeg derbyn yr atgyfeiriad i gwblhau'r ymchwiliad yn y gyfres o safonau y mae'n bwriadu eu datblygu i fonitro perfformiad y gwasanaeth diogelu.

Mae'r cyngor yn symud tuag at ddatblygu bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol, a chynhaliwyd cyfarfodydd gydag asiantaethau partner i nodi'r strwythur a'r blaenoriaethau. Mae angen i'r cyngor, trwy ymgynghori ag asiantaethau partner, sicrhau bod materion diogelu lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r bwrdd rhanbarthol.

Plant

Roedd gostyngiad o 26% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd mis Mawrth 2013, a nodwyd bod y strategaethau ataliol yn ffactor allweddol. Er hyn, mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y maes hwn yn parhau i fod yn rhesymol ond nid yw prydlondeb cynadleddau achos cychwynnol cystal ag mewn cynghorau eraill. Mae'r cyngor wedi cyflwyno proses mwy cynhwysol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn y broses cynhadledd achos ar sail y model 'Signs of Safety' ac mae'n ymddangos bod mwy o ymgysylltu â'r rhieni. Mae angen i'r cyngor ystyried gwerthuso'r broses newydd hon i ddangos y cysylltiad rhwng gallu teuluoedd i reoli risg yn well â chanlyniadau gwell i blant.

Mae diogelu mewn addysg wedi parhau i fod yn bwyslais ac mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi parhau i fonitro gweithrediad y gweithdrefnau diogelu newydd. Mae tîm aml-asiantaeth wedi ei ddatblygu i gynnal archwiliadau diogelu mewn addysg, ac mae hyn yn arwain at drefniadau diogelu, gwell yn ysgolion y cyngor. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'u safbwyntiau am yr hyn sy'n bwysig iddynt o ran diogelu ac mae Bwrdd Lleol

Diogelu Plant iau yn cael ei sefydlu, ac yn rhoi llais gwell i blant a phobl ifanc ynglŷn â diogelu.

Mae trefniadau wedi eu sefydlu i ddatblygu Byrddau Lleol Diogelu Plant rhanbarthol ac mae'r cyngor yn arwain y datblygiadau hyn. Mae'n amlwg bod y cyngor mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r agenda diogelu gydweithredol gan fod trefniadau trawsnewid eglur wedi eu sefydlu. Mae angen i'r cyngor sicrhau, wrth weithredu'r broses gysgodi, nad ydynt yn diystyru materion diogelu lleol.

Mae'r cyngor wedi gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli pobl ifanc sy'n agored i niwed, a chynhelir cyfarfodydd aml-asiantaeth bob mis. Mae'r cyngor yn nodi ei fod yn ymgysylltu'n well â phobl ifanc, bod y ffactorau risg wedi eu gostwng a bod pobl ifanc yn cael canlyniadau gwell.

Mae'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn rhesymol yn gyffredinol ac mae gan y cyngor hanes da o gadw plant yn y sir. Mae nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ymhlith yr isaf yng Nghymru. Er hyn, gallai sefydlogrwydd lleoliadau fod yn well. Mae trefniadau effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer monitro ac adolygu cynlluniau lleoliad a chynlluniau gofal, ond dylai'r cyngor sicrhau bod adolygiadau statudol yn cael eu cynnal yn brydlon gan nad yw'r perfformiad cystal â chynghorau eraill yn y maes hwn. Mae gan y cyngor fframwaith sicrhau ansawdd sy'n ymestyn i fonitro ansawdd cynlluniau gofal llysoedd. Mae'r cyngor yn cynnal cysylltiadau da â rhai sy'n gadael gofal ac mae mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan weithredol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Er bod canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn dda yn gyffredinol, mae canlyniadau a phresenoldeb disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn awgrymu bod cydberthynas rhwng lefelau presenoldeb gwael yn yr ysgol a chyraeddiadau'r plant, ac mae angen i'r cyngor graffu ar y canlyniadau gwael ar gyfer y grŵp hwn o blant. Er bod mwy o gynlluniau addysg personol yn cael eu datblygu o fewn ugain o ddiwrnodau ysgol, mae'r cyngor yn parhau i fod yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r maes hwn i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi gan gynllun addysg perthnasol.

Meysydd o gynnydd

- Perfformiad gwell o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo o ysbytai.
- Gwelliant yn y gwasanaeth teleofal.
- Cyfleoedd gwell i gael gwaith a gwneud gweithgareddau yn y gymuned trwy ddatblygu gwasanaethau dydd gwell i oedolion ag anableddau dysgu.
- Datblygiad gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru.
- Nodi gofalcwyr yn well a chynnydd yn nifer y gwasanaethau cymorth i ofalcwyr.

Meysydd i'w gwella

- Lleihau'r oedi wrth gynnal ymchwiliadau diogelu yn y gwasanaethau i oedolion.

- Prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella.
- Parhau i ddatblygu'r gwaith o ymgysylltu â theuluoedd â phlentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Gwella perfformiad datblygu cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 3.
- Gwella perfformiad o ran cynnal adolygiadau statudol yn brydlon i blant sy'n derbyn gofal.
- Gwella sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal.

GALLU

Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol:

Oedolion

Mae uwch reolwyr yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth gref, a cheir systemau cyfathrebu effeithiol gyda'r gweithlu sy'n ymgysylltu ac yn sicrhau ymrwymiad i newid ar bob lefel. Mae'r gwasanaethau i oedolion wedi cynnal adolygiad, o'i gymharu â fframwaith asesu'r Adran Iechyd (Defnydd o Adnoddau mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion) i fesur y defnydd effeithiol o adnoddau ac maent yn fodlon eu bod un ai'n cyflawni neu'n gweithio tuag at gyflawni'r gyfres o safonau. Mae'r cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i wasanaethau gofal cymdeithasol ac wedi ychwanegu £4 miliwn i'r gyllideb ar gyfer 2013/14 i fodloni galw cynyddol. Her fawr i'r cyngor fydd sicrhau y gellir parhau i ddarparu y gwasanaethau'n effeithiol o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth a'r galw ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae gan y cyngor gysylltiadau sydd wedi eu sefydlu'n dda ag asiantaethau partner ac maent yn darparu nifer o wasanaethau trwy ddull cydweithredol. Mae Bwrdd Cydweithredu Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd newydd ei sefydlu, a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi nodi eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau trwy ddull cydgysylltiedig. Y blaenoriaethau yw darparu gwasanaethau mwy cost-effeithiol trwy gyfuno adnoddau, gyda'r nod o wella canlyniadau i drigolion.

I gefnogi gwaith cydweithredol, mae'r cyngor wedi sefydlu grŵp integreiddio ym maes cyfathrebu a TG i archwilio'r syniad o ddatblygu system gofal cymdeithasol integredig. Bydd system electronig o fudd mawr i'r gweithlu, gan ei fod yn rhwystr i waith amlasiantaethol effeithiol ar hyn o bryd.

Mae rhaglen ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi ei sefydlu'n dda a cheir cyfleoedd hyfforddi da. Mae nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau achrededig yn cynyddu, gan gyflawni amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol. Mae'r cyngor, gydag awdurdodau partner ac mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, wedi datblygu dyfarniad ôl gymhwyso i weithwyr cymdeithasol. Mae trefniadau gwell wedi eu sefydlu ar gyfer systemau adnoddau dynol, ac mae rheolwyr a staff yn cael mwy o gymorth trwy broses iechyd galwedigaethol y cyngor.

Plant

Y cyfarwyddwr addysg sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaethau i blant, a cheir cysylltiadau effeithiol rhwng y swydd hon, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a phennaeth y gwasanaethau i blant. Penodwyd pennaeth y gwasanaethau i blant yn barhaol i'r swydd ym mis Ebrill, ar ôl bod yn gwneud y swydd dros dro am chwe mis, ac mae'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad da i'r gwasanaeth. Roedd adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 yn nodi bod y gwasanaethau i blant wedi parhau i berfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd, a cheir arweinyddiaeth gref ac effeithiol.

Mae strategaeth ataliol y cyngor a'r cyfochri â'r adran addysg yn parhau i sicrhau bod y cyngor yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r gallu i gadw staff yng ngweithlu'r gwasanaethau i blant wedi gwella, ac mae'r cyngor yn cynnal lefel uchel o swyddi parhaol. Mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus o ran recriwtio ac wedi cynnal cyfradd y swyddi gwag ar 5% yn y gwasanaethau i blant. Mae hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ymarfer gyntaf, a hyfforddiant a chymorth parhaus i weithwyr cymdeithasol wedi eu sefydlu'n dda ac mae gwir ymrwymiad i gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae staff yn treulio llai o amser ar gofnodi a mwy o amser gyda phlant a phobl ifanc yn sgil gwella'r broses gofnodi electronig, trwy fentrau fel adolygu'r broses asesu.

Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn wedi eu sefydlu yn yr adran a cheir gwir ymrwymiad gan uwch reolwyr i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal yn systematig. Mae'r drefn o gyflwyno adroddiadau am ddata perfformiad wedi ei ymwreiddio'n dda, mae'r gwasanaeth adolygu annibynnol yn gweithio'n effeithiol ac mae goruchwyliaeth ychwanegol ar adroddiadau'r llysoedd yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant.

Meysydd o gynnydd

- Cynllunio ariannol gwell, targedu adnoddau trwy waith ar y cyd yn well.
- Parhau i gynnal gweithlu ymroddedig sydd wedi eu hyfforddi'n dda.
- Gwasanaethau cymorth TG gwell ar gyfer y staff.
- Ymrwymiad cryf gan y cyngor i rianta corfforaethol.

Darparu cyfeiriad:

Mae'r cyngor wedi nodi ei flaenoriaethau strategol ar gyfer 2013/14 gyda phwyslais ar *Ganlyniadau Gwell*, *Effeithlonrwydd Gwell*. Maent yn nodi meysydd allweddol yn y gwasanaethau i oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddarparu a datblygu gwasanaethau sy'n defnyddio dull cydweithredol.

Mae gan y cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad cydlynol i'r gwasanaethau i oedolion a phlant, ac mae ymrwymiad gwleidyddol cryf i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngwaith y

pwyllgor craffu iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnal archwiliadau ar wasanaethau. Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau i bobl â dementia eleni ac, yn ystod y misoedd sydd i ddod, cynhelir adolygiad o'r gwasanaethau iechyd meddwl a fydd yn cynnwys gweithrediad Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mae'r grŵp strategol rhianta corfforaethol yn gweithredu'n effeithiol. Maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a thimau gwaith cymdeithasol yn y cyngor. Ceir cysylltiadau da â'r panel rhianta corfforaethol rhwng rheolwyr strategol a gweithredol, a gwelwyd tystiolaeth bod y grŵp wedi gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau rhai sy'n gadael gofal. Mae'r tîm corfforaethol wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau lleoedd prentisiaeth yn y cyngor i blant sy'n derbyn gofal. Mae'n amlwg bod ymrwymiad gwirioneddol gan y cyngor i ddarparu cyfleoedd bywyd da i'r grŵp hwn o bobl ifanc.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, yn ei hadroddiad gwelliant blynyddol ar gyfer 2012/13, yn dod i'r casgliad bod y cyngor yn rheoli ei raglen gwella yn dda ac yn parhau i ddatblygu adroddiadau i'r cyhoedd sy'n rhoi asesiad teg a chytbwys o ddatblygiadau, yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r cyngor yn bwrw ymlaen yn dda â'r gwaith o sicrhau gwelliannau ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli'r cyngor wedi darparu dull aeddfed o hunanwerthuso. Mae cynlluniau gwella'r cyngor a'r trefniadau i gefnogi gwelliant yn gadarn.

Canfu adolygiad cenedlaethol o swyddogaeth statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gan AGGCC ym mis Rhagfyr 2012 bod cyfeiriad cryf wedi'i osod ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a bod pennaeth y gwasanaethau taledig, swyddogion, aelodau a phartneriaid o'r farn bod hyn yn deillio o'r proffil corfforaethol sylweddol a roddir i agenda'r gwasanaethau cymdeithasol ac wedi'i gefnogi gan ethos cadarnhaol o gydweithredu, er eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau statudol. Canfu'r gwerthusiad hefyd bod llawer iawn o hyder a chred yng ngallu ac arweinyddiaeth broffesiynol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol o fewn y cyngor. Mae'r gwasanaethau i oedolion a phlant mewn cyfarwyddiaethau ar wahân a'r gwasanaethau i blant wedi eu lleoli yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau addysg a phlant. Casglodd y gwerthusiad fod gan gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaethau cymdeithasol gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith trwy'r broses ffurfiol sydd wedi ei sefydlu yn yr awdurdod. Yr her ar gyfer y dyfodol fydd parhau i ymwneud yn uniongyrchol, oherwydd y rhoddir mwy o bwyslais ar gydweithio'n rhanbarthol, megis y byrddau diogelu plant.

Mae'n amlwg bod y cyngor yn ymroddedig i weithredu Papur Gwyn Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu* a'r egwyddor y dylid rhoi llais cryf i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gan ei fod wedi datblygu strategaeth ymgysylltu ar gyfer y staff. Mae'r strategaeth yn amlinellu egwyddorion y ddeddfwriaeth yn eglur, ymrwymiad y cyngor i'r Papur Gwyn a chyfrifoldeb y staff wrth gyflawni'r egwyddorion hyn. Ar y cyd â'r

strategaeth, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant a chymorth ynglŷn â chyfathrebu eglur â rhanddeiliaid.

Meysydd o gynnydd

- Goruchwyliaeth y pwyllgor craffu o waith y gwasanaethau cymdeithasol.

Meysydd i'w gwella

- Sicrhau bod y cyfarwyddwr yn parhau i gymryd rhan a goruchwyllo'r byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer oedolion a phlant.